
BWLETIN POLISI CYTÛN

CYTÛN POLICY BULLETIN

JULY / GORFFENNAF 2011



PRIF WEINIDOG CYMRU I BENNU BLAENORIAETHAU DEDDFWRIAETHOL

Wrth annerch Aelodau'r Cynulliad yn y Senedd, gwnaeth Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, bennu blaenoriaethau deddfwriaethol ei lywodraeth newydd.

Ymhlith y meysydd y bydd y biliau yn mynd i'r afael â hwy mae:

- Gwneud i awdurdodau lleol gydlafurio ymhellach wrth ddarparu gwasanaethau.
- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd newydd er mwyn gwella diogelwch bwyd a rhoi gwybodaeth sy'n hawdd i'w deall i gwsmeriaid.
- Y Bil Rhoi Organau er mwyn creu system o ddewis peidio â rhoi organau.
- Y Bil Addysg Ysgolion a Safonau er mwyn mynd i'r afael ag ysgolion sy'n tangyflawni.
- Diwygio gwasanaethau cymdeithasol er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol cydlynol Cymreig ar gyfer bodloni disgwyliaid a demograffeg gymdeithasol sy'n newid.
- Camau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd ac anheddau gwag, ynghyd â gwella safonau a hawliau tenantiaid yn y sector rhentu preifat.
- Cyflwyno dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu a chynnal llwybrau beicio mewn ardaloedd allweddol.
- Cydgrynhai deddfwriaeth bresennol er gwneud y system gynllunio yn fwy tryloyw a sicrhau ei bod o fewn cyrraedd pawb.

ADDYSG, DYSGU A MENTER

Ffydd mewn Addysg - adroddiad ar y cyd yn tynnu sylw at gyfraniad ysgolion ffydd

Cafodd rôl ysgolion eglwysig wrth helpu i godi safonau addysgol yng Nghymru ei thrafod mewn seminar diweddar o dan arweiniad Gweinidog Addysg Cymru Leighton Andrews a dau Archesgob.

Rhoddodd Mr Andrews y prif anerchiad yn y seminar Ffydd mewn Addysg ar Fehefin 23ain fel rhan o fenter rhwng Llywodraeth Cymru, yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Gatholig Rhufain.

Lansiodd y digwyddiad ddogfen ar y cyd o'r enw Ffydd mewn Addysg, sy'n amlinellu cyfraniad positif ysgolion eglwysig i'r system addysg a ariannir yn gyhoeddus, ac yn cydnabod y rôl y mae cymunedau ffydd yn chwarae mewn ysgolion ar draws y wlad.

Cyflwynwyd y digwyddiad gan Archesgob Cymru, Dr Barry Morgan, a'r Archesgob George Stack yn un o'i ddyletswyddau cyhoeddus cyntaf fel Archesgob Caerdydd.

Hybu rôl Eglwysi Rhyddion mewn addysg ar lefel y llywodraeth

Bydd eglwysi rhyddion Cymru yn cyfarfod â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn tynnu sylw at y rôl bwysig y mae'r enwadau rhyddion yn chwarae yn system ysgolion Cymru.

Mae Mr Rheinallt Thomas, sy'n cyngori Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ar faterion addysgol, wedi cylchredeg adroddiad uchel ei barch, "A Free Church Voice in Education" a fydd yn cael ei ddefnyddio'n sail i'r drafodaeth.

Fframwaith Newydd i Godi Safonau Llythrennedd a Rhifedd yn Ysgolion Cymru

Cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru, Leighton Andrews AM, y bydd Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol statudol newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer holl ddysgwyr 5-14 oed mewn ysgolion ar draws Cymru.

Bydd y Fframwaith yn pennu'r canlyniadau blynyddol y disgwylir i ysgolion eu cyflawni o ran llythrennedd a rhifedd dysgwyr 5-14 oed. Bydd hyn yn helpu athrawon ar draws y pynciau i gyd i wybod sut y dylent fynd ati i wella llythrennedd a rhifedd ledled y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael mwy o lwyddiant.

Bydd profion darllen a rhifedd penodol yn chwarae rhan bwysig yn y Fframwaith, medd y llywodraeth, a byddant yn galluogi athrawon i nodi'n glir cynnydd a datblygiad sgiliau'r dysgwyr. Yn y tymor hir, bydd y Fframwaith yn rhoi i athrawon y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i gynllunio eu rhaglenni addysgu, gan dynnu eu sylw at achosion lle mae angen rhagor o gymorth ar y rhai hynny'n sy'n syrthio'n brin.

Cyflwynir y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol mewn ysgolion ym mis Medi 2012 a bydd ar waith ar draws Cymru gyfan erbyn 2013.

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi newidiadau i gyllido myfyrwyr rhan-amser

Bydd gan fyfyrwyr rhan-amser, sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, yr hawl i'r un cymorth â ffioedd â myfyrwyr sy'n dewis astudio'n llawn-amser, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru, Leighton Andrews.

Yn amodol ar y Bil Addysg, mae'r Gweinidog yn cynnig pennu uchafswm o £7,000 pro rata o ran ffioedd dysgu rhan-amser yn hytrach na £9000 er mwyn annog rhagor o ddysgwyr i ddilyn cyrsiau addysg uwch yn rhan-amser. Bydd gan fyfyrwyr rhan-amser sy'n huanu o Gymru hawl i fenthyciad nad yw'n amodol ar brawf modd ynghyd â grant er mwyn talu cost ymlaen llaw eu ffioedd dysgu. Yn unol â'r cymorth a gyhoeddwyd ar gyfer myfyrwyr llawn-

amser, bydd benthyciad ar gael i dalu cyfran o'r ffi a bydd grant ar gael gan Lywodraeth Cymru i dalu gweddill y gost.

Er enghraifft - o dan y cynigion gallai Sefydliadau Addysg Uwch godi hyd at £7,000 pro rata am gwrs rhan-amser. Os yw myfyriwr yn astudio ar gyfradd o 50% (mae'r gyfradd yn amrywio rhwng 25%-75%) byddai'n talu £3,500. Byddai gan y myfyriwr hawl i fenthyciad myfyriwr o £1,732.50 a byddai Llywodraeth Cymru yn talu'r £1,767.50 a fyddai'n weddill. Ni fyddai'n rhaid i'r myfyriwr ad-dalu'r benthyciad nes y byddai'n ennill cyflog, ac ni fyddai'n rhaid ad-dalu'r grant ffioedd gan y Llywodraeth.

Mae tua 27,000 o israddedigion yn astudio'n rhan-amser yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n cynrychioli cyfran helaeth o gyfanswm nifer y myfyrwyr. Cafodd pwysigrwydd allweddol darpariaeth addysg uwch ar sail ran-amser i ffyniant economaidd Cymru ac i gynhwysiant cymdeithasol ei gydnabod yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, sef ein strategaeth ar gyfer addysg uwch a gyhoeddwyd yn 2009.

[Diwygio trethi unigolion nad ydynt yn preswyllo yn y DU](#)

Mae'r ddogfen ymgynghorol hon, a gyhoeddwyd ar [wefan Trysorlys Ei Mawrhydi](#), yn gofyn am farn ar y cynllun polisi manwl yn y newidiadau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2011 i drethiant unigolion nad ydynt yn preswyllo yn y DU. Mae'r Llywodraeth yn croesawu barn gan unigolion, ymgynghorwyr busnes, busnesau a chyrff cynrychioliadol sy'n cael eu heffeithio gan y rheolau ar drethiant y rhai nad ydynt yn preswyllo yn y DU, neu sydd â diddordeb ynddo.

CYDRADDOLDEB

Diwedd y cyfnod ymgynghori ar gynlluniau i alluogi Partneriaethau Sifil o fewn adeiladau crefyddol

Bellach mae'r cyfnod ffurfiol wedi dod i ben ar gyfer sylwadau i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar alluogi cofrestru partneriaethau sifil yn adeiladau crefyddol y grwpiau ffydd hynny sydd am eu cynnal nhw.

Mae'r ddarpariaeth yn cael gwared ar y gwaharddiad cyfreithiol ar gofrestru partneriaethau sifil mewn adeiladau crefyddol, yn galluogi gwneud rheoliadau i osod allan y trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r adeiladau hynny gan yr awdurdod lleol, ac yn egluro nad oes unrhyw reidrwydd ar grwpiau ffydd i gynnal cofrestriadau partneriaethau sifil yn eu hadeiladau.

Mae *Civil partnerships on religious premises: a consultation* yn gosod allan cynigion manwl ar gyfer y mesur gwirfoddol hwn sy'n gwella rhyddid grwpiau ffydd a chyplau o'r un rhyw. Bwriad y cynigion yw galluogi grwpiau ffydd i ddewis ymuno, i barchu strwythurau penderfynu gwahanol grwpiau ffydd gwahanol, lleihau'r risg o heriau cyfreithiol llwyddiannus, a'i gwneud hi'n syml i awdurdodau lleol i weithredu. Bydd y gyfraith yn ei gwneud hi'n glir nad oes rheidrwydd ar grwpiau ffydd i gynnal partneriaethau sifil. Byddai hefyd yn anghyfreithlon i gofrestru partneriaeth sifil mewn adeilad crefyddol nad oedd

wedi'i gymeradwyo ar gyfer y pwrpas hwnnw gan yr awdurdod lleol. Ni roddir y gymeradwyaeth honno heb gymeradwyaeth y grŵp ffydd o dan sylw.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gofyn am sylwadau ar ei Gynllun Strategol newydd 2012/2015

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi lansio'r cyntaf o dri chynnod o ymgynghori er mwyn datblygu ei gynllun strategol nesaf.

Bydd y cynllun yn cwmpasu ei gynlluniau a'i flaenoriaethau o fis Ebrill 2012 i fis Mawrth 2015 ac mae disgwyl iddo gael ei osod ger bron Senedd San Steffan ym mis Ebrill 2012.

CYMUNEDAU A DIWYLLIANT

Mynegi pryderon o hyd am ddyfodol S4C

Mae amrediad o fudiadau ac unigolion wedi parhau i lobïo llywodraeth y DU dros ddyfodol S4C.

Mynegodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, ei bryderon ynghylch dyfodol darlledu cyhoeddus yng Nghymru mewn cyfarfod gyda'r Arglwydd Patten, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi codi pwnc dyfodol BBC Cymru a newidiadau i S4C gyda llywodraeth y DU. Dywedodd y Prif Weinidog, "Er nad yw darlledu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae gennym bryderon mawr ynghylch dyfodol BBC Cymru ac S4C. Mae cael sector darlledu cyhoeddus cryf, sydd wedi'i ariannu'n effeithiol, yn hanfodol ar gyfer ein heconomi, ein cymdeithas sifil a'n bywyd diwylliannol. Bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn cael effaith fawr iawn. Mae nifer o oblygiadau'n deillio o'r newidiadau yn nhrefniadau ariannu S4C a'r lleihad posibl yng nghyllideb y BBC."

Mae eglwysi Cymru hefyd wedi lleisio'u pryderon. Mae'r Annibynwyr, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac eraill wedi ysgrifennu at lywodraeth y DU, a chafodd Archesgob Cymru, Barry Morgan, sylw yn ddiweddar wedi iddo lobïo llywodraeth y DU.

Cychwyn ar y Broses o Benodi Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r broses o benodi Comisiynydd y Gymraeg yn mynd rhagddo ar ôl i'r rheoliadau angenrheidiol gael eu cymeradwyo yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r rheoliadau, sydd bellach mewn grym, yn gwneud darpariaeth ynghylch sefydlu'r panel dethol a fydd yn gyfrifol am gyfweld ymgeiswyr a gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog ynghylch y penodiad. Mae'r cyhoeddiad diweddaraf hwn yn gam pwysig ar y daith tuag at weithredu'r system newydd o safonau iaith a ddarparwyd o dan Fesur yr Iaith Gymraeg a gyflwynwyd gan Lywodraeth ddiwethaf y Cynulliad.

Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews, mai'r nod oedd hysbysebu'r swydd ym mis Gorffennaf a chyhoeddi enw'r ymgeisydd llwyddiannus yn yr hydref.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am ddatblygu system reoleiddio newydd, yn seiliedig ar safonau, er mwyn sicrhau gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Bydd hefyd yn cynghori Llywodraeth Cymru ac eraill ar bolisi iaith a bydd yn gallu cynnal ymholiadau mewn i amrediad eang o faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Dros 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru

Oherwydd genedigaethau, marwolaethau a mewnfudo, mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer poblogaeth Cymru yn 2010 yn dangos bod 3,006,400 o bobl yn byw yma.

Mae'r ystadegau'n dangos bod mwy o bobl 65 oed neu'n hŷn yn byw yma na phlant dan 16 oed am y tro cyntaf erioed.

Mae nifer y bobl yn yr ystod oedran uchaf wedi codi i 558,100 sy'n 18.6% o'r boblogaeth, a gostyngodd nifer y plant i 548,000 (18.2% o'r boblogaeth).

Mae'r boblogaeth wedi bod yn cynyddu o tua 10,700 y flwyddyn er 2001.

Mae 76,500 o bobl dros 85 oed (2.5%) yn byw yng Nghymru erbyn hyn, ac oherwydd gwahaniaethau mewn disgwyliad oes rhwng y rhywiau mae dwywaith mwy o fenywod na dynion yn y grŵp oedran hwn.

Yr ardal lle ble'r boblogaeth wedi cynyddu fwyaf er 2001 yw Caerdydd (cynnydd o 10 y cant), wedyn Bro Morgannwg (cynnydd o 4.8 y cant), ac mae'r boblogaeth wedi gostwng fwyaf ym Mlaenau Gwent (gostyngiad o 2.3 y cant) a Merthyr Tudful (0.9 y cant).

Yn 1841, roedd poblogaeth Cymru yn 1.05 miliwn. Cynyddodd poblogaeth Cymru yn sylweddol rhwng 1841 a 1911, gan fwy na dyblu i 2.42 miliwn, wrth i Gymru chwarae rhan bwysig yn y chwyldro diwydiannol.

Doedd dim cymaint o gynnydd yn y boblogaeth yn yr 20fed Ganrif, gan gynyddu tua 10 y cant rhwng 1911 a 1961 i gyrraedd 2.64 miliwn. Roedd cynnydd pellach o 10 y cant rhwng 1961 a 2001 i 2.91 miliwn yn 2001.

Fforwm partneriaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch cyfansoddiad aelodaeth y Fforwm ac mae'n cynnig nifer o opsiynau i ymatebwyr eu hystyried.

Sefydlwyd y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (NPF) yn 2005 fel rhan o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Corff cynghori annibynnol i Weinidogion yw'r Fforwm.

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o strwythur aelodaeth yr NPF. Awgrymodd yr adolygiad nad yw'r strwythur cyfredol yn addas at ei ddiben bellach ac y dylid ei newid i sicrhau bod yr NPF yn cynrychioli mwy o arbenigedd ac amrywiaeth. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnig

nifer o opsiynau ar gyfer y strwythur yn y dyfodol ac unrhyw sylwadau eraill sydd gan ymatebwyr.

[Adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch – galw am dystiolaeth](#)

Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu Adolygiad Annibynnol o ddeddfwriaeth iechyd a Diogelwch. Bydd yr adolygiad yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer lleihau baich deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar fusnesau'r DU a chadw'r cynnydd a wnaed wrth wella canlyniadau iechyd a diogelwch. Mae disgwyl i'r adolygiad hwn – o dan gadeiryddiaeth yr arbenigwr blaenllaw ym maes rheoli risg Yr Athro Ragnar Löfstedt – wneud argymhellion i Weinidogion erbyn diwedd mis Hydref 2011.

Mae'r Athro a'r pwyllgor ymgynghorol yn gofyn i bawb sydd â diddordeb i ddarparu tystiolaeth a fydd yn helpu i oleuo'r posibiladau ar gyfer lleihau baich deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar fusnesau'r DU ond eto'n cynnal canlyniadau iechyd a diogelwch.

Cyngor Celfyddydau Cymru yn lansio [Strategaeth Cyfalaf Ddrafft](#)

Mae'r [Strategaeth Cyfalaf ddrafft](#) hon yn nodi nifer o ddewisiadau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Daeth rhai i'r fei drwy ail-archwilio'r polisi ariannu a orffenasom y llynedd - ein [Hadolygiad Buddsoddi](#). Daw eraill o gasgliadau Adolygiad Artservice. Nawr hoffwn rannu ein cynigion yn ehangach.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn gosod allan, ac yn ceisio barn ar y cynnig i sefydlu siartr drafft ar gyfer Gwasanaeth presennol y Crwner.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at grwneriaid, swyddfeydd crwneriaid, mudiadau gwirfoddol sy'n delio gyda galar, awdurdodau lleol, pobl mewn galar a phawb sydd â diddordeb yng Ngwasanaeth y Crwner.

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r fersiynau Word neu ar-lein o'r holiadur.

MATERION AMGYLCHEDDOL

Cynnydd Cymru mewn Ailgylchu

Aeth cyfradd ailgylchu Cymru i fyny i 44 y cant yn 2010-2011, yn ôl data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin.

Yn ôl yr adroddiad rhagarweiniol, cafodd 43.6 y cant o wastraff trefol ei ailgylchu neu ei gompostio – mae hynny 4.4 y cant yn uwch na chyfradd 2009-2010, sef 39.3 y cant. Mae'r cynnydd hwn yn fwy na'r twf a gafwyd rhwng 2008-2009 a 2009-2010, pan welwyd cynnydd o 3.4 y cant. Gyda'r ffigyrau hyn, mae pob tebygrwydd y bydd Cymru'n llwyddo i gyrraedd ei tharged ailgylchu statudol o 52 y cant erbyn 2012-2013.

Mae ailgylchu wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf; roedd cyfradd ailgylchu 2010-2011 chwe gwaith yn uwch na chyfradd 2000-2001 (7 y cant). Mae nifer o gerrig milltir ym maes gwastraff wedi'u cyflawni, sy'n golygu mai Cymru yw:

- Yr unig wlad yn y DU i gyflwyno targedau ailgylchu statudol ar gyfer gwastraff trefol.
- Yr unig wlad yn y DU lle mae'r holl awdurdodau lleol yn cynnal casgliadau ar wahân ar gyfer bwyd a gwastraff gwyrdd.
- Y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno Cynllun Lwfansau Tirlenwi.
- Y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno taliadau gorfodol ar gyfer bagiau siopa untro, ym mis Hydref 2011.

Gellir dod o hyd i'r ffigyrau [yma](#).

IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cynllun Cenedlaethol Datblygu'r Gweithle yng Nghymru

Mae'r Tîm Proffesiynol a Sefydliadol bellach wedi lansio'r ymgyngoriad ar Gynllun Cenedlaethol Datblygu'r Gweithle ar gyfer Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru. Comisiynwyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i nod yw sefydlu cynllun hyfforddiant ar gyfer iechyd y cyhoedd fel cam gofynnol o Ein Dyfodol Iach.

Arweiniodd y Tîm Datblygu Proffesiynol a Sefydliadol y gwaith gyda chymorth Grŵp Cenedlaethol Datblygu'r Gweithle ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y nod oedd datblygu cynllun hyfforddiant yng Nghymru gan ystyried pob lefel, sector, partner a rhanddeiliad ac ati. Cafodd nifer o unigolion a thimau ar draws system iechyd y cyhoedd gyfweiliad a chyfrannu at y cam casglu gwybodaeth a helpodd i lunio nodau ac amcanion y cynllun.

LLYWODRAETH LEOL

Gweinidog Llywodraeth Leol yn Herio Awdurdodau Lleol

Yn ddiweddar anerchodd y Gweinidog Llywodraeth Leol Carl Sargeant gynhadledd Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru yn Abertawe. Dywedodd ei fod yn disgwyl gweld dulliau llawer mwy strategol yn cael eu gweithredu i sicrhau bod awdurdodau'n cydweithio, gyda phenodiadau ar y cyd yn un o'r blaenoriaethau.

Dywedodd y Gweinidog nad yw strwythur 22 awdurdod lleol Cymru o ran cyflogi uwch-swyddogion yn gynaliadwy nac yn addas erbyn hyn. Roedd hefyd yn mynegi ei rwystredigaeth yn wyneb amharodrwydd awdurdodau i wneud penodiadau ar y cyd wrth benodi uwch-swyddogion fel prif weithredwyr, a galwodd ar lywodraeth leol i ddod â'r siarad i ben ac i ddechrau gweithredu'r dulliau newydd.

Hefyd fe heriodd Awdurdodau Lleol i edrych yn agosach ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth:

- “Er bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol, rhaid i ni osgoi diwylliant o gyfarfodydd a chynhyrchu strategaethau,” meddai. “O’r rhan i, byddaf yn adolygu’r gweithgarwch mewn partneriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei symbylu, er mwyn symleiddio a diwygio’r strwythurau.”

Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog na fyddai llywodraeth leol yn cael ei had-drefnu’n llwyr, gan ddweud y byddai hynny’n cymryd gormod o amser ac yn llyncu gormod o arian ac yn amharu’n ddifrifol ar wasanaethau. Yn lle hynny, byddai’n mynd ati cyn gynted â phosibl i weithredu argymhellion Adolygiad Simpson o ran y modd y cyflenwir gwasanaethau lleol.

MATERION CYFANSODDIADOL

Esgobion i barhau yn Nhŷr Arglwyddi ar ei newydd wedd, ond bydd llai ohonynt

Mae’r Mesur drafft ar Ddiwygio Tŷr Arglwyddi a’r Papur Gwyn yn gosod allan opsiynau ar gyfer Tŷr Arglwyddi a fydd wedi’i ethol yn bennaf neu’n gyfan gwbl. Ymhlith yr argymhellion allweddol mae:

- Tŷ diwygiedig gyda 300 o aelodau, pob un ohonynt yn gymwys ar gyfer un tymor o dair Senedd
- etholiadau yn defnyddio’r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, gan ethol traean o’r aelodau bob tro gydag etholiadau fel arfer yn digwydd ar yr un pryd ag Etholiadau Cyffredinol
- ardaloedd etholiadol aml-aelod, i’w llunio yn annibynnol yn seiliedig ar ffiniau cenedlaethol a sirol
- parhad o bresenoldeb Esgobion Eglwys Loegr yn Nhŷr Arglwyddi, gan ostwng y nifer o 26 i 12
- pontio i’r aelodaeth newydd dros gyfnod o dri chylch etholiadol.

Byddai’r etholiadau cyntaf yn cael eu cynnal yn 2015.

Gwahardd Dau AC yn dilyn etholiad

Fe bleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol i adfer Aled Roberts AC i’w sedd fel Aelod Rhanbarthol o’r Cynulliad ar gyfer Gogledd Cymru yn dilyn ymchwiliad i’w wahardd o’i swydd. Erys ei gydweithiwr, John Dixon (Canol De Cymru) dan waharddiad ac fe gymerir ei sedd gan ail ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar y rhestr, Eluned Parrott.

MATERION EGLWYSIG

Ysgrifennydd Cyffredinol CWM yn cael fisa i’r DU ar ôl oedi hir

Mae Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor Cenhadaeth Byd-eang (CWM), y Parchedig Ddr Collin Cowan, wedi cael fisa yn caniatáu iddo fyw a gweithio yn y DU.

Mae hyn yn golygu y gall Dr Cowan, a ddechreuodd yn ei swydd fel ysgrifennydd cyffredinol ym mis Ionawr, symud gyda'i deulu o Jamaica i Lundain a pharhau yn ei swydd ochr yn ochr â staff yr ysgrifenyddiaeth yn swyddfa Ipalo House y Cyngor.

Bu eglwysi Cymru'n chwarae rhan mewn ymgyrch sylweddol, byd-eang yn lobio Llywodraeth y DU i ganiatáu'r fisa yn dilyn oedi gan Asiantaeth Ffiniau'r DU.

Meddai Dr Cowan: "Rydym yn ddiolchgar dros ben am gefnogaeth ein partneriaid eciwmenaidd a mentrau ein heglwysi yn y DU, sydd wedi'n helpu yn sylweddol i gyrraedd y lle hwn."

Ychwanegodd: "Bu hon yn broses hir, ond bellach mae ar ben a gall fy nheulu a finnau ymgartrefu yn y DU ar fyrder."

GERAINT HOPKINS

SWYDDOG POLISI,

CYTÛN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU